YSGOL PENCAE
Highfields, Gilian Road
Llandaf, Caerdydd
CF5 2QA
Ffôn: 029 20563851
Ebost: ysgolpencae@cardiff.gov.uk

@ pencae2
Dilynwch ni ar Trydar
Follow us on Twitter

Cylchlythyr Rhif 22/*Newsletter No 22*
22.02.19

Annwyl Riant neu Warcheidwad / *Dear Parent or Guardian,*

CRhA / *PTA*

Diolch yn fawr iawn i'r CRhA am eu holl weithgarwch yn ystod yr hanner tymor diwethaf. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yng ngweithgaredd olaf yr hanner tymor – sinema! Roedd digon o chwerthin wrth wylio Sherlock Gnomes.

Cyfarfod Nesaf - 11.04.19 yn Nhafarn Radyr Court, 8yh.

Thank you to the PTA for all their hard work this half term. The children thoroughly enjoyed the last activity of the half term – cinema. The hall was full of laughter as we watched Sherlock Gnomes.

Next Meeting – 11.04.19 Radyr Court Pub, 8pm.

Ffair yr Arweinwyr Digidol / *Digital Leaders Fair*

Diolch i bawb a wnaeth ymuno gyda ni neithiwr er mwyn mwynhau a dysgu yn ein ffair ddigidol. Mae'r Arweinwyr wedi bod yn brysur yn creu ffilm yn dangos sut maen nhw'n helpu'r ysgol a'u teuluoedd gyda'u sgiliau. Maen nhw wedi cyrraedd y rhestr fer – pleidleisiwch os gwelwch yn dda:

bit.ly/arwyrdigidol19

Thank you to everyone who joined our digital fair last night.
The Digital Leaders have been busy creating a film that shows how they have helped the school and their families with their skills. They have reached the short list – please vote for their work:

bit.ly/digitalheroescomp19



PSQM Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD

Cynhadledd Ieithoedd Modern / *Modern Languages Conference*

Braf oedd mynd a chriw o ddisgyblion o flynyddoedd 4 i 6 i gynhadledd Ieithoedd Modern Caerdydd heddiw. Roedd yn ddiwrnod prysur o fwynhau, mentro a phrofi pum iaith wahanol – Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Mandarin ac Eidaleg. Da iawn, Très bon, Sehr Gut, Muy bien, 很好 , Molto buona!

It was a pleasure to take pupils from year 4 to 6 to a Modern Languages Conference today. It was a very busy day with the children enjoying, exploring and talking five different languages – French, German, Spanish, Mandarin and Italian. Da iawn, Well done, Très bon, Sehr Gut, Muy bien, 很好 , Molto buona!

Diwrnod y Llyfr / *World Book Day*



Byddwn yn dathlu Diwrnod y Llyfr ar ddydd **Gwener, yr 8fed o Fawrth**. Mae croeso i'r disgyblion ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad a llyfr a byddai'n braf eu bod nhw yn dod â'u hoff lyfr i'r ysgol er mwyn ei gyflwyno i'r dosbarth. Braf iawn yw gweld statws darllen mor amlwg ar ein cyfrif Trydar gyda disgyblion yn trydaru eu hoff awduron gyda sylwadau a chwestiynau a'r awduron yn ymateb!

*We will be celebrating World Book Day on **Friday, 8th of March**. The children are welcome to come to school dressed as their favourite character from a book and they can bring their favourite book into school to present to the rest of the class. It is so nice to see reading's status on our Twitter page with children tweeting their favourite authors with questions and comments and the authors responding!*

Gŵyl Ddewi / *St David's Day*

Bydd ein hwythnos gyntaf yn ôl wedi hanner tymor yn wythnos o ddathlu ein Cymreictod. Bydd cyngerdd gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ac Eisteddfod Ysgol Pencae!

05.03.19 - **Cyngerdd Cyfnod Sylfaen 9.15am – 10.15am**:
Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ein diddanu gyda chaneuon Cymreig traddodiadol a chyfoes. Rieni'r Dosbarth Derbyn, dewch i fwynhau eu cyngerdd yn neuadd yr ysgol. Bydd paned a phice ar y main yn eich disgwyl yn ogystal â thaith o amgylch yr ysgol er mwyn gweld gweithgareddau'r disgyblion o'r Dosbarth Derbyn hyd Flwyddyn 6! Dewch yn llu!

11.03.19 – Eisteddfod Ysgol Pencae – pawb i ddod yn eu gwisgoedd Cymreig.
Byddwn yn mwynhau cystadlaethau hwyliog yn ystod y dydd gyda Teilo, Illtud, Cybi a Dewi yn brwydro i fod yn bencampwyr y diwrnod. Bydd croeso i rieni blwyddyn 5 a 6 ymuno gyda ni ddiwedd y dydd (amser i'w gadarnhau) ar gyfer defod y Cadeirio. Pa fardd dawnus o flwyddyn 5 a 6 fydd yn eistedd yn y Gadair ys gwn i?

Our first week back will be a week of celebrating all things Welsh. The Foundation Phase will be performing a concert and we will be holding our very own Eisteddfod!

PSQM
Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD

***05.03.19*: Foundation Phase Concert 9.15am – 10.15am**
The Foundation Phase children will be entertaining us in a concert full of Welsh traditional songs. Reception Class parents can join us to enjoy the singing followed by a Welsh Cake and 'paned' before having a tour of the school and seeing what the pupils are doing from Reception Class to Year 6! Come and join us!

11.03.19 –*Ysgol Pencae Eisteddfod – everyone to come in their Welsh costumes.*
We will be enjoying various competitions during the day and Teilo, Illtud, Cybi and Dewi will be battling to be the Eisteddfod champions. At the end of the day (time to be confirmed), year 5 and 6 parents are welcome to join us for the chairing of the bard ceremony! I wonder which talented poet from year 5 or 6 will sit in the chair?

Celf a Chrefft yr Urdd / Urdd Art, Design and Technology Competition

Thema gwaith celf a chrefft yr Urdd eleni yw **Bwrlwm**. Mae amryw o gystadlaethau gwahanol a fydd yn apelio at y disgyblion i gyd. Os yw eich plentyn yn dymuno cystadlu, bydd angen dod â'r gwaith (wedi labelu'n glir, gweler y rheolau) i'r ysgol erbyn **10fed o Ebrill.**
Cewch fwy o wybodaeth am y cystadlaethau yn y wefan isod:

http://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/cystadlu/gwaith-cartref/celf-dylunio-thechnoleg/

*The theme for the art competitions this year is **Hustle and Bustle**. There are various competitions within the art section, competitions that will appeal to all pupils. If your child wishes to compete, they will need to bring their work (clearly labelled – see rules) to school by the **10th of April.***
You will find information regarding the competitions on the website below:

http://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/competitions/home-work/art-design-and-technology/

Clybiau Ar Ôl Ysgol / *After School Clubs*

Wythnos / *Week:* 04.03.19	**Clybiau / Clubs**		
Dydd Llun	**15.30pm – 17.00pm** Côr / *Choir*		
Dydd Mawrth	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Pêl-droed / *Football Club* (Cymysg / Mixed Bl3-6)	**15.30pm – 16.30pm** Dancefit (aelodau yn unig / *members only*)	
Dydd Mercher	**15.30pm – 16.30pm** Jiwdo / *Judo* (aelodau yn unig / *members only*)		
Dydd Iau	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Hwb (aelodau yn unig / *members only*)	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Ffrangeg (aelodau yn unig / *members only*)	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Pêl-rwyd *Netball Club* (Cymysg / Mixed Bl3-6)
Dydd Gwener	**15.30pm – 17.30pm** Cyflwyniad Dramatig / *Dramatic Performance* Aelodau yn unig / *Members only*		
Dydd Sul 09.03.19	**13.30pm – 15.00pm** Pari Unsain, deulais a Chôr *Unison Party, Two part Party and Choir* Aelodau yn unig / *Members only*	**15.00pm – 16.30pm** Cyflwyniad Dramatig / *Dramatic Performance* Aelodau yn unig / *Members only*	

PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD

TOP TIP Diogelwch y We
Internet Safety TOP TIP

Pan fo plant yn chwilio ar y we, defnyddiwch borwyr chwilio addas i blant. Mae'r rhain yn sicrhau nad oes deunydd anaddas yn ymddangos.	*When children are searching the web, use children friendly search engines. These block inappropriate content:*

KidzSearch Google Custom Search

YAHOOLIGANS! The Web Guide for Kids

Dyddiadau pwysig / *Important dates*

Dyddiad / Date	**Gweithgaredd / *Activity***
25.02.19 – 01.03.19	Hanner Tymor */ Half Term*
05.03.19 ***9.15am***	Cyngerdd Gŵyl Ddewi Y Cyfnod Sylfaen *The Foundation Phase St David's Day Concert*
08.03.19	DD – Bl5: Diwrnod y Llyfr / *World Book Day* Bl6: Diwrnod Pontio Glantaf (Criced) / *Glantaf Transition Day (Cricket)*
11.03.19	Eisteddfod Ysgol Pencae
12.03.19	Eisteddfod Ddawns Caerdydd *Dance Eisteddfod*
14.03.19	Eisteddfod offerynnol (yn ystod y diwrnod ysgol) *Instrumental Eisteddfod(during the school day)*
18.03.19 ***6.30pm***	Blwyddyn 4: Cyflwyniad Maes y Fron *presentation*
22.03.19 **2.50pm**	Gwasanaeth Agored */ Open Assembly*
23.03.19	Eisteddfod Gylch Yr Urdd - mwy o fanylion i ddilyn *Area Urdd Eisteddfod – more details to follow*
27.03.19 & 28.03.19	Noson Rieni: Dosbarth Derbyn – Blwyddyn 6 *Parents Evening: Dosbarth Derbyn – Year 6*
06.04.19	Eisteddfod Sir yr Urdd – mwy o fanylion i ddilyn *County Urdd Eisteddfod – more details to follow*
10.04.19 – 12.04.19	B4 – Maes y Fron
11.04.19 **8pm**	Cyfarfod CRhA / *PTA Meeting* Tafarn *Radyr Court Pub*
29.04.19	Dyddiad cau Celf a Chrefft yr Urdd *Closing date for the Arts and Crafts Urdd Competition*
07.05.19 – 14.05.19	B2 – B6: Profion Cenedlaethol/ *National Tests*
27.05.19 – 01.06.19	Hanner Tymor Sulgwyn – Eisteddfod yr Urdd Caerdydd *Whitsun Half Term – Eisteddfod yr Urdd in Cardiff*
28.06.19	Mabolgampau / *Sports Day*
01.07.19 – 04.07.19	Wythnos Feicio Bl5 */ Yr5 Cycling Week*
19.07.19	Diwrnod olaf y flwyddyn academaidd / *Last day of the academic year*

Siwan Dafydd
Pennaeth Dros Dro

PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD